



**Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group  
Grŵp Cydgysylltu Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair**

**6pm, Tuesday 24<sup>th</sup> October 2017**

**6yh, Nos Fawrth, 24 Hydref 2017**

**The Old Boiler House, Penllergaer Village Hall**

**AGENDA**

1. Welcome & introductions / Croeso a chyflwyniadau
2. Apologies / Ymddiheuriadau
3. Community Fund / Cronfa Cymunedol - Kathryn Harries, innogy,  
& Amanda Carr, SCVS
4. Minutes of previous meeting & matters arising / Cofnodion  
o'r cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi
5. Correspondence
6. Update / Diweddariad - Tim James, innogy
7. Update / Diweddariad – Jenny Cowley, innogy
8. AOB / UFA
9. Next meeting / Cyfarfod nesaf

**24<sup>th</sup> October 2017**

**The tenth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group  
Old Boiler House, Penllergaer**



**Attendees**

Emma North, Planning, City and County of Swansea  
Councillor Paul Northcote, Mawr Community Council  
Brigitte Rowlands WGCA  
Alun Thomas, Highways, City and County of Swansea  
Jane Harris, Pontarddulais Town Council  
Tom Morris, Dawnus Construction Ltd  
Sgt Philip Morris, South Wales Police  
Matthew Collins, South Wales Police  
Cllr Wyn Morgan, Penllergaer Community Council  
Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd  
Cllr Robert Jones, Mawr Community Council  
Philip McDonnell, Chair  
Kathryn Harries, Community Investment Manager, Innogy Renewables UK Ltd.  
Amanda Carr, Swansea Council for Voluntary Service  
Tim James, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd  
Jenny Cowley, Community Liaison Manager, Innogy Renewables UK Ltd.  
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

**1. Welcome and introductions**

The chair welcomed the group.

**2. Apologies**

Cllr Kevin Griffiths, Pontarddulais Community Council; David Owen, Planning, City and County of Swansea; Paul Newman, Pontlliw Community Council.

**3 Community Benefit Fund update**

3.1 The Chair invited Kathryn Harries and Amanda Carr to provide an update on progress with the Mynydd y Gwair Community Benefit Fund.

3.2 KH gave an introduction and a brief reminder of the setup of the fund.

- The fund is to the value of £240,000/annum and will be made available from the start of commercial operations (due to be end of 2018).
- The administration fee for SCVS will be taken from the fund
- The fund will be split into 2 separate areas – The local area and the wider (Swansea) area. The local fund will have priority and the wider area will benefit if there is money available.
- A decision panel will be formed, made up of local representatives. These posts will be advertised.

3.3 Amanda Carr gave handouts to CLG members, provided an overview of SCVS and outlined their approach to administering the fund.

- SCVS are well established in Swansea and have worked with the sector closely for many years; SCVS staff are from Swansea and have strong local knowledge.
- The tender process was competitive and the maximum amount of money will be allocated to community groups.
- SCVS has built up a strong capacity for administering grant funding and have, for example, distributed grant money on behalf of the Local Authority, GP Clusters, ABMU, and EU funding.

- SCVS has partnerships with statutory organisations – they are the voice of the third sector.
- The principles underpinning the process are that the fund should be simple and accessible, with decisions being made quickly, support on bid writing offered, and a broad based eligibility criteria.
- In terms of membership of the **local** grant giving panels, SCVS are looking for: local people with knowledge and expertise on local issues; members who can make decisions based on information submitted rather than subjective opinion.
- For the **Swansea wide** grant giving panel, with an initial focus on skills and employability, panel members would need to have expertise in the field.

3.4 The Chair thanked guests for their update and opened the meeting up to questions.

	Question	Answer
1	What are the costs of running the fund?	Each bid was scored for Value For Money and SCVS's bid scored well on this. SCVS has been given a 5 year contract and the running costs will be £19,000 per annum. SCVS will match some of this by providing services from existing staff. As a general principle, running costs of less than 10% of the total grant represents good value. SCVS's costs are under 10%.
2	How professional will applications have to be? There is a concern that some local groups who don't have experience of grant applications will be competing against organisations with more experience, and this will be unfair.	One of the principles of SCVS's approach is that grant applications should be simple and straightforward. Project details will be commensurate with the amount of funding being sought. SCVS and innogy will work with local groups to support them. A grant application template has not yet been drafted. This will be developed in the run up to the fund becoming available and in consultation with the local grants panel once appointed. There is clear evidence that SCVS and innogy have a real desire to work with local communities – the fund isn't simply a grant pot, but a <i>community development</i> fund. SCVS will work with communities to develop applications, and want to start talking to local people straight away, to provide support in developing projects in readiness for when the money is available. SCVS has tried out many techniques to ensure grant funds are accessible including video applications.
3	Is there a cap on the number of projects that can be funded or on the amount of an individual grant?	There are no plans to cap the number of projects funded, rather, the best projects will be supported. There is likely to be an upper limit set for the total size of each award, but that amount has yet to be decided. It's probable that a banding system will be established.
4	Can the pot of money be used to reduce everybody's community council precept payment? This would benefit everybody.	This has been raised with innogy in other parts of the UK where a community benefit fund exists. Whilst innogy isn't keen to do this, they will not rule it out. From experience, communities prefer to spend the money on projects that will benefit the whole community, and the principle of reducing council precept payments was not raised during the initial consultation exercise.

5	When will the money be available to spend?	The fund will be available as soon as the wind farm is 'commercially operational'. The first annual payment is released at this point. That is likely to be towards the end of 2018. By that point a grant panel will be in place.
6	Does the SCVS decide on which projects are successful?	No. The SCVS are the administrators, and can provide advice and support to applicants. They will also assess applications and carry out due diligence for the panels consideration. However, decisions are made independently of the SCVS by the grant giving panels. Potential applicants are urged to seek SCVS advice now, because they may be able to help find alternative sources of grant funding, prior to the Mynydd y Gwair Wind Farm community benefit funding becoming available.
7	Does SCVS provide an audit function?	SCVS will carry out due diligence on each application, appropriate to the size of the grant being sought.
8	What will the application process look like?	The process will be easily accessible, open and transparent and fair. The process will be finalised with the grant giving panels once they are in place. Although preference will not be given based on proximity to the site most grants panels certainly consider this factor when assessing applications.
9	What are the next steps?	Local community councils will be invited to a workshop in the new year to discuss early project ideas and ask any questions they have. SCVS will be organising this workshop with innogy.

#### 4. Minutes of previous meeting and matters arising

4.1 Actions 5.5 and 5.7 have been completed.

4.2 Action 6.3 – it is unlikely that there will be any recycled material left for use in cycle tracks.

4.3 A correction was proposed to item 5.3. Road-pecking work did not begin until 9 am, not 7.30 am as stated in the draft minutes.

4.4 Subject to this amendment, the minutes were accepted as a true record of the previous meeting.

#### 5. Correspondence

5.1 A number of items of correspondence had been received for discussion at the CLG meeting:

5.2 The Clerk of Pontarddulais Town Council had requested that he be sent a copy of the draft CLG minutes. Members felt that the draft minutes should only be sent to CLG representatives only. In the event that the minutes need amending, it is best that they are contained until such time that they are agreed. At the point that the minutes are agreed, they are made public and uploaded onto the innogy website. Each CLG member is entitled to forward the draft minutes to their community council colleagues in order to facilitate a discussion on the progress of wind farm construction at community and town council meetings held in between CLG meetings, on the understanding that the minutes are in draft format. CLG members agreed to stick to the existing process of distribution.

5.3 KG had forwarded correspondence from a local resident disputing innogy's compliance with the **Section 106 agreement** (an agreement with the local authority which formed part of the planning permission) and asked that the matter be discussed.

5.4 TJ said he was glad to have the opportunity to respond to the allegations and outlined how innogy was complying fully with the S106 agreement, which is a publicly available document

referencing innogy's obligations to ensure that the project benefits local people and companies as much as possible.

5.5 TJ explained that S106 definitions are:

- Local Businesses is defined as businesses employing people in Wales.
- Local People is defined as people living within the Swansea Bay City Region.
- Local Services and Supplies is defined as Services originating in Wales or using Welsh products.

5.6 In summary, innogy is required to 'use reasonable endeavours' to use local services and supplies, recruit local people and use local businesses as employees, contractors, and sub-contractors provided appropriate materials, facilities, skills, relevant expertise and technical specialisation is available and commercially acceptable.

5.7 Innogy ensures that local people and local businesses are given the opportunity to be considered for employment, by placing an obligation on contractors to use local people and use local businesses and undertake supply chain events.

5.8 TJ confirmed that in the case of the recently awarded contracts, Welsh businesses that met requirements regarding financial stability and health & safety performance were invited to tender. Following a robust tender process for both packages of work the contracts were placed with the contractor that could meet the terms and conditions of the contract, meet the programme requirements of the contract and provided the most commercially acceptable offer.

5.9 TJ wished it to be noted that seven companies applied for the initial contract (for the enabling works), five of these were Welsh companies.

5.10 In the case of the civil works, innogy's contractor has estimated that approx. 74% of the contract spend will be spent within 100 km (62 miles) of the site. This will be on the procurement of materials, supplies, services, plant and labour. They have also estimated that it will support approximately 43 Welsh jobs.

5.11 The electrical works are more challenging as many of the companies with the experience and expertise are not located in Wales, furthermore much of the specialist high voltage electrical equipment is manufactured outside of the UK. However, innogy is currently working with the contractor to ensure that one of the sub-contracts for supply of HV cables can be placed with a Welsh based supplier.

5.12 Prior to the tender process, a supply chain event was held (at the Maritime Museum in Swansea in July 2016) and all local businesses that registered an interest in the project were passed on as part of the tender.

5.13 The contract for the administration of the community benefit fund has been placed with a local organisation (SCVS) and as future opportunities come up innogy will continue to involve Welsh businesses where we are able.

5.14 For clarity, both the civil works contract and the electrical works contract have been placed with UK companies (both based in Belfast). The enabling works contract was placed with Clydach based Dawnus Construction Ltd.

5.15 CLG members welcomed the detailed feedback on how innogy seeks to comply with the S106. One member noted that it would be difficult to source all of the specialisms required, locally, and that large tender exercises were closely regulated.

5.16 In response to a question about monitoring just how local the workforce is, TJ explained that a reporting element is a contractual obligation (placed on Dawnus and others), which involves looking at staff home postcodes, and using similar data for supplier spend. In most cases it makes sense to supply goods, materials and services, locally.

5.17 KG had also tabled a letter from **a local resident living on Bolgoed Road** for discussion.

5.18 The Chair noted that the queries and complaints in the letter before the CLG had been discussed widely at previous CLG meeting.

5.19 The letter was addressed to members of Pontarddulais Town Council, but TJ requested the opportunity to respond to all queries and allegations made in the letter from the resident, for the purposes of the minutes.

	<b>Query/complaint</b>	<b>Innogy's response</b>
1	Construction vehicles are driving through the town, despite being prohibited from doing so.	All contractors are contractually obliged to comply with the Traffic Management Plan (TMP) agreed with the local authority. The gateman at the site entrance challenges all drivers who have entered the site from the wrong direction. Anyone who doesn't comply is also challenged by Dawnus. As an example of how compliance is strictly implemented, TJ explained that two drivers who had flouted the TMP were no longer working on the scheme. It was felt that the matter had been dealt with as rigorously as possible.
2	The resident sees no evidence of a wheel wash facility at the site entrance (planning condition 7).	The gateman consistently washes mud and dust off all vehicles coming from site, in order to prevent vehicles from dirtying the highway. This is done diligently using a pressure washer. It is possible that the resident expected to see a wheel washing machine, and is unaware that it is the gateman who washes vehicles using a pressure washer.
3	The construction is impacting on local flora and fauna.	The impact of the scheme was thoroughly assessed in the Environmental Impact Statement submitted during the planning process, and agreed by both the City and County of Swansea and subsequently considered by the Welsh Government (during the commons application process). These issues have been aired thoroughly and are documented.
4	Work on site starts early and is noisy.	The wind farm is a construction project and there is inevitably a noise and disturbance impact. Efforts are made to reduce these as far as possible. All restrictions placed on innogy (through planning conditions) are strictly adhered to. TJ/JC undertook surveillance of the site on three separate occasions (22/5, 11/7, 12/10) to ensure that restrictions in place were being met. TJ observed that workers did not begin work until the agreed 7.30 am start time, and that workers arriving for work were not slamming their car doors. One worker had been sitting in his car with the engine idling for a period of time prior to starting work. TJ had subsequently had a word with that worker.
5	Unacceptable levels of noise and vibration.	Sound levels are monitored and have been deemed acceptable according to the strict standards set. It is acknowledged that the noise is new and different and more likely to be noticeable. Similarly, vibration is being closely monitored – both by Dawnus and independently - and as yet, levels have not exceeded the strict standards set.
6	Unacceptable levels of dust	Roads are swept and washed as soon as it becomes necessary to do so. Dawnus were praised for their efforts to keep surfaces clean, and AT confirmed that the highways department were satisfied with the steps that they had taken.
7	No-one local to the scheme is on the CLG	CLG members were nominated by their community council and/or organisation. Since the CLG has been set up, Jane Harris has been nominated as Pontarddulais Town Council's substitute member, and attends frequently in Kevin Griffiths' absence. JH lives on

		Bolgoed Road.
--	--	---------------

5.20 The work at the site entrance is coming to an end and is unlikely to go on beyond November. Thereafter, work vehicles will be parking further up the road nearer to the wind farm site, and this should reduce noise and nuisance.

5.21 The local resident has corresponded frequently with innogy, and all correspondence has been answered. The resident has expressed her dissatisfaction with the communication from innogy. A member of the CLG suggested that JC meets the resident in person. JC explained that she makes the offer to meet in person in her e-mail responses but this has not been taken up to date.

5.22 JH feels suitably well informed to speak to the resident following the updates provided by innogy, and she further offered to accompany JC on a visit to the resident.

5.23 Another local resident is in discussion with innogy regarding cracks in their property. Innogy is continuing to monitor vibration and will reach a decision on the matter when monitoring is complete. Thus far there is no reason to believe that vibration as a result of the work at the site entrance could have caused cracks. Innogy owns the property closest to the site, and can monitor this building closely.

## **6. Update from Tim James & Jenny Cowley**

6.1 Currently the section from the junction of Heol Glyn Dyfal and Five Ways is being surfaced.

6.2 Further fencing and planting at the site entrance is scheduled next week. The drains have been installed.

6.3 The bund has been removed.

6.4 The pot holes on Colliery Road are being filled in, but the CLG should note that this road is also used by construction traffic working on the flood alleviation scheme.

6.5 Efforts are being made to minimise traffic disruption and one resident has even called to express gratitude for the way that innogy and the contractor has dealt with concerns.

6.6 The cattle grid near Cwmdulais was installed at the request of commoners, however one local resident has queried this, as without fencing, sheep simply walk around the cattle grid. Commoners had agreed to fence each side of the cattle grid, and this needs to be clarified and agreed locally. The matter will be raised with the WGCA.

6.7 Referring to complaints raised by the Bolgoed Road resident (discussed during item 5 of the agenda), it was noted that innogy had knocked on all doors on Bolgoed Road, Dawnus had done a letter drop, and JC/innogy's contact details had also been delivered.

## **7 AOB**

7.1 The Chair thanked Dawnus for their attendance and contribution. The Dawnus contract is coming to an end and it is unlikely that Dawnus representatives will be required at future CLG meetings.

## **8 Next meeting:**

The next meeting will be held at 6 pm on Thursday 30<sup>th</sup> November at the Pontarddulais Institute (subject to availability).

The meeting concluded at 7.50 pm.

**24 Hydref 2017**

**Degfed cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair  
Old Boiler House, Penllergaer**

### **Yn Bresennol**

Emma North, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe  
Y Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr  
Brigitte Rowlands WGCA  
Alun Thomas, Priffyrdd, Dinas a Sir Abertawe  
Jane Harris, Cyngor Tref Pontarddulais  
Tom Morris, Dawnus Construction Ltd  
Sgt Philip Morris, Heddlu De Cymru  
Matthew Collins, Heddlu De Cymru  
Cyng Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer  
Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Ltd  
Cyng Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr  
Philip McDonnell, Cadeirydd  
Kathryn Harries, Rheolwr Buddsoddiadau Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd.  
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS)  
Tim James, Rheolwr Prosiectau Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd  
Jenny Cowley, Rheolwr Cyswllt Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd.  
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

### **2. Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### **3. Ymddiheuriadau**

Cyng Kevin Griffiths, Cyngor Cymuned Pontarddulais; David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe;  
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw

### **3 Diweddariad ar y Gronfa Budd Cymunedol**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Kathryn Harries ac Amanda Carr i'w diweddarau ar y cynnydd gyda Chronfa Budd Cymunedol Mynydd y Gwair.

3.2 Cafwyd cyflwyniad gan KH, ac atgoffwyd yr aelodau'n fyr o sut y mae'r gronfa'n gweithredu.

- Mae'r gronfa'n werth £240,000 y flwyddyn a bydd ar gael o ddechrau'r gweithrediadau masnachol (disgwylir hyn ddiwedd 2018).
- Bydd ffi weinyddol a delir i SCVS yn cael ei chymryd o'r gronfa
- Bydd y gronfa'n cael ei rhannu'n ddwy ardal ar wahân – yr ardal leol a'r ardal ehangach (Abertawe). Bydd y gronfa leol yn cael blaenoriaeth a bydd yr ardal ehangach yn elwa os bydd arian ar gael.
- Bydd panel penderfynu'n cael ei ffurfio, a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr lleol. Bydd y swyddi hyn yn cael eu hysbysebu.

3.3 Dosbarthodd Amanda Carr daflenni i aelodau'r Grŵp, a oedd yn rhoi trosolwg o SCVS ac yn disgrifio sut y bydd yn gweinyddu'r gronfa.

- Mae SCVS wedi hen sefydlu'i hun yn Abertawe ac mae wedi cydweithio'n glos â'r sector ers blynnyddoedd lawer; daw staff SCVS o Abertawe ac maent yn wybodus iawn am yr ardal.
- Roedd y broses dendro'n un gystadleuol a bydd y swm uchaf posibl yn cael ei ddyrannu i grwpiau cymunedol.



- Mae SCVS wedi datblygu arbenigedd mewn gweinyddu cyllid grant ac mae, er enghraifft, wedi dosbarthu arian grant ar ran yr Awdurdod Lleol, Clystyrau GP, ABMU, a chyllid yr Undeb Ewropeaidd.
- Mae gan SCVS bartneriaethau â sefydliadau statudol – hwy yw llais y trydydd sector.
- Yr egwyddorion sy'n sail i'r broses yw y dylai'r gronfa fod yn syml ac agored, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym, bod cymorth ar gael i lunio ceisiadau, ynghyd â meini prawf cymhwysedd eang.
- O ran aelodaeth y panelau dyfarnu grantiau **lleol**, mae SCVS yn chwilio am: pobl leol â gwybodaeth ac arbenigedd ar faterion lleol; aelodau a all wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth a gyflwynir yn hytrach na barn oddrychol.
- Yn achos y panel dyfarnu grantiau ar gyfer **Abertawe gyfan**, a fydd yn rhoi pwyslais i ddechrau ar sgiliau a chyflogadwyedd, bydd angen aelodau panel sydd ag arbenigedd yn y maes.

### 3.5 Diolchodd y Cadeirydd am y diweddariad a gwahoddwyd cwestiynau.

	Cwestiwn	Ateb
1	Faint yw costau rhedeg y gronfa?	Cafodd pob bid ei sgorio am Werth am Arian a sgoriodd bid SCVS yn dda ar hyn. Mae SCVS wedi cael contract 5 mlynedd a bydd y costau rhedeg yn £19,000 y flwyddyn. Bydd SCVS yn paru hyn trwy ddarparu gwasanaethau gan staff presennol. Fel egwyddor gyffredinol, mae costau rhedeg sy'n llai na 10% o gyfanswm y grant yn cael ei weld fel gwerth da. Mae costau SCVS yn llai na 10%.
2	Pa mor broffesiynol fydd yn rhaid i geisiadau fod? Mae pryder y bydd rhai grwpiau lleol sydd heb brofiad o gynnig am grantiau yn cystadlu yn erbyn mudiadau mwy profiadol, a bod hynny'n annheg.	Un o egwyddorion gweithredu SCVS yw y dylai ceisiadau am grant fod yn syml a hawdd. Bydd manylion fydd eu hangen am brosiectau'n gymesur â'r swm y gofynnir amdano. Bydd SCVS ac innogy yn gweithio â grwpiau lleol i'w helpu. Nid oes templed ar gyfer gwneud cais am grant wedi'i lunio eto. Caiff hwn ei ddatblygu yn y cyfnod cyn agor y gronfa ac mewn ymgynghoriad â'r panel grantiau lleol ar ôl iddo gael ei benodi. Mae tystiolaeth bendant fod SCVS ac innogy yn awyddus dros ben i weithio â chymunedau lleol – mae'r gronfa'n fwy na phentwr o arian, mae'n gronfa <i>datblygu</i> cymunedol. Bydd SCVS yn gweithio â chymunedau i ddatblygu ceisiadau, ac maent yn awyddus i ddechrau siarad â phobl leol ar unwaith, i roi cymorth i ddatblygu prosiectau'n barod erbyn pan fydd yr arian ar gael. Mae SCVS wedi arbrofi â nifer o dechnegau i sicrhau bod cronfeydd grant yn hygyrch, ac mae hynny'n cynnwys ceisiadau fideo.
3	A oes terfyn ar nifer y prosiectau a all gael eu hariannu neu ar swm grant unigol?	Nid oes bwriad i roi terfyn ar nifer y prosiectau sy'n cael eu hariannu, yn hytrach bydd y prosiectau gorau'n cael eu cefnogi. Mae'n debygol y bydd uchafswm ar gyfer cyfanswm maint pob dyfarniad, ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar faint y swm eto. Mae'n debygol y bydd system o fandiau'n cael ei sefydlu.
4	A ellir defnyddio arian y gronfa i leihau praesept y dreth gyngor i	Codwyd y mater hwn gydag innogy mewn rhannau eraill o'r DU lle mae cronfa budd cymunedol yn weithredol. Er

	bawb? Byddai pawb yn elwa wedyn.	nad yw innogy yn awyddus i wneud hyn, nid ydynt wedi diystyru'r posibilrwydd. Mae profiad wedi dangos bod yn well gan gymunedau wario'r arian ar brosiectau lle bydd y gymuned gyfan yn elwa, ac nid chodwyd yr egwyddor o leihau praesept y dreth gyngor yn ystod yr ymarferiad ymgynghori.
5	Pa bryd fydd yr arian ar gael i'w wario?	Bydd y gronfa ar gael cyn gynted ag y bydd y fferm wynt yn "gweithredu'n fasnachol. Bydd y taliad blynyddol cyntaf yn cael ei ryddhau ar yr adeg honno. Mae hyn yn debygol o ddigwydd tua diwedd 2018. Erbyn hynny bydd y panel grant wedi'i benodi.
6	Ai SCVS fydd yn penderfynu pa brosiectau sy'n llwyddiannus?	Nage. Gweinyddu'r gronfa mae SCVS, a gallant roi cyngor a chymorth i ymgeiswyr. Byddant hefyd yn asesu ceisiadau ac yn cynnal ymarferion diwydrwydd dyladwy ar gyfer y panel. Fodd bynnag, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn annibynnol ar SCVS gan y panelau dyfarnu grantiau. Mae darpar ymgeiswyr yn cael eu hannog i gael cyngor SCVS yn awr, oherwydd efallai y bydd modd iddynt ddod o hyd i ffynonellau arian eraill cyn y bydd arian cronfa budd cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair ar gael.
7	A yw SCVS yn darparu swyddogaeth archwilio?	Bydd SCVS yn cynnal diwydrwydd dyladwy ar bob cais, a fydd yn briodol i faint y grant y gwneir cais amdano.
8	Sut fydd y broses ymgeisio'n edrych?	Bydd y broses yn un hawdd i'w defnyddio, a bydd yn agored, yn dryloyw a theg. Bydd y broses yn cael ei chadarnhau'n derfynol ar ôl penodi'r panelau dyfarnu grantiau. Er na fydd ceisiadau'n cael eu ffafrio ar sail agosrwydd at y safle bydd y rhan fwyaf o baneli grantiau'n bendant yn ystyried y ffactor hwn wrth asesu grantiau.
9	Beth yw'r camau nesaf?	Bydd cynghorau cymuned lleol yn cael eu gwahodd i weithdy yn y flwyddyn newydd i drafod syniadau cynnar ar gyfer prosiectau ac i ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Bydd SCVS yn trefnu'r gweithdy hwn gydag innogy.

#### 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

4.3 Mae Camau Gweithredu 5.5 a 5.7 wedi eu cwblhau.

4.4 Cam Gweithredu 6.3 – nid yw'n debygol y bydd unrhyw ddeunydd wedi'i ailgylchu ar gael i'w ddefnyddio ar lwybrau beicio.

4.3 Cynigiwyd cywiriad i eitem 5.3. Nid oedd gwaith pigo ffydd wedi dechrau tan 9 am, ac nid am 7.30 am fel y nodwyd yn y cofnodion drafft.

4.5 Yn amodol ar y cywiriad hwn, cafodd y cofnodion eu derbyn fel cofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

#### 5. Gohebiaeth

5.1 Cafwyd sawl darn o ohebiaeth ac sydd i'w trafod yn y cyfarfod o'r Grŵp:

5.2 Roedd Clerc Cyngor Tref Pontarddulais wedi gofyn am gopi o gofnodion drafft y Grŵp. Roedd yr aelodau'n teimlo mai dim ond at gynrychiolwyr y Grŵp y dylai cofnodion drafft gael eu hanfon. Rhag ofn y byddai angen newid cofnodion drafft, mae'n well eu cadw nes bydd cytundeb terfynol ar eu cynnwys. Cyn gynted ag y bydd cytundeb ar gynnwys y cofnodion, byddant ar gael i'r cyhoedd ac yn

cael eu lanlwytho ar wefan innogy. Mae gan bob aelod o'r Grŵp hawl i anfon y cofnodion drafft at gydweithwyr yn eu cyngor cymuned er mwyn hwyluso trafodaeth ar gynnydd gwaith adeiladu'r fferm wynt mewn cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned a gynhelir rhwng cyfarfodydd y Grŵp, ar yr amod eu bod yn sylweddoli eu bod mewn fformat drafft. Cytunodd aelodau'r Grŵp i gadw at y broses bresennol ar gyfer eu dosbarthu.

5.3 Roedd KG wedi anfon gohebiaeth ymlaen a gafwyd gan breswlydd lleol a oedd yn amau cydymffurfriad innogy â'r **cytundeb Adran 106** (cytundeb â'r awdurdod lleol a oedd yn rhan o'r caniatâd cynllunio) a gofynnodd bod y mater yn cael ei drafod.

5.4 Dywedodd TJ ei fod yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r honiadau ac aeth ymlaen i ddisgrifio sut yr oedd innogy yn cydymffurfio'n llawn â'r cytundeb Adran 106, sy'n ddogfen gyhoeddus sy'n amlinellu rhwymedigaethau innogy i sicrhau bod pobl a chwmnïau lleol yn elwa cymaint â phosibl ar y prosiect.

5.5 Eglurodd TJ mai diffiniadau Adran 106 yw:

- Mae Busnesau Lleol yn cael eu diffinio fel busnesau sy'n cyflogi pobl yng Nghymru.
- Mae Pobl Leol yn cael eu diffinio fel pobl sy'n byw yn Ninas Ranbarth Bae Abertawe.
- Mae Gwasanaethau a Chyflenwadau Lleol yn cael eu diffinio fel Gwasanaethau sy'n tarddu o Gymru neu sy'n defnyddio cynnyrch Cymreig.

5.6 Yn gryno, mae'n ofynnol bod innogy yn 'gwneud ymdrechion rhesymol' i ddefnyddio gwasanaethau a chyflenwadau lleol, yn recriwtio pobl leol ac yn defnyddio busnesau lleol fel cyflogaeth, contractwyr, ac isgcontractwyr ar yr amod bod deunyddiau, cyfleusterau, sgiliau, yr arbenigedd perthnasol ac arbenigrwydd technegol ar gael ac yn dderbyniol o safbwynt masnachol.

5.7 Mae Innogy yn sicrhau bod pobl leol a busnesau lleol yn cael y cyfle i gael eu hystyried ar gyfer cyflogaeth, trwy osod rhwymedigaeth ar gcontractwyr i ddefnyddio pobl leol ac i ddefnyddio busnesau lleol ac i gynnal digwyddiadau cadwyn gyflenwi.

5.8 Yn achos y contractau a ddyfarnwyd yn ddiweddar, cadarnhaodd TJ fod busnesau Cymreig, a oedd yn ateb y gofynion o ran sefydlogrwydd ariannol a pherfformiad iechyd a diogelwch wedi cael eu gwahodd i dendro. Yn dilyn proses dendro drylwyr ar gyfer y ddau becyn gwaith cafodd y contractau eu dyfarnu i gcontractwr a fyddai'n gallu cydymffurfio â thelerau ac amodau'r contract, yn ateb gofynion rhaglen y contract ac yn gwneud y cynnig mwyaf derbyniol o safbwynt masnachol.

5.9 Nododd TJ fod saith cwmni wedi gwneud cais am y contract cyntaf (ar gyfer y gwaith galluogi), ac roedd pump o'r rhain yn gwmnïau Cymreig.

5.10 Yn achos y gwaith sifil, mae contractwr innogy wedi amcangyfrif y bydd oddeutu 74% o wariant y contract yn cael ei wario o fewn 100 km (62 milltir) o'r safle. Bydd y gwariant hwn ar gaffael deunyddiau, cyflenwadau, gwasanaethau, peiriannau a llafur. Maent wedi amcangyfrif hefyd y bydd yn cynnal tua 43 o swyddi Cymreig.

5.11 Mae'r gwaith trydanol yn fwy o her gan fod y rhan fwyaf o'r cwmnïau sydd â'r profiad a'r arbenigedd angenrheidiol wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Hefyd, mae llawer o'r cyfarpar trydanol foltedd uchel arbenigol yn cael ei weithgynhyrchu y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, mae innogy ar hyn o bryd yn gweithio â'r contractwr i sicrhau bod un o'r is-gcontractau i gyflenwi ceblau foltedd uchel yn cael ei roi i gyflenwr yng Nghymru.

5.12 Cyn cychwyn ar y broses dendro, cafodd digwyddiad cadwyn gyflenwi ei gynnal (yn Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2016) ac roedd pob busnes lleol a oedd wedi datgan diddordeb yn y prosiect yn cael eu cynnwys fel rhan o'r tendr.

5.13 Mae'r contract i weinyddu'r gronfa budd cymunedol wedi cael ei dyfarnu i fudiad lleol (SCVS) ac wrth i gyfleoedd eraill codi gydag innogy yn y dyfodol, byddant yn parhau i gynnwys busnesau Cymreig pan fydd hynny'n bosibl.

5.14 Er eglurder, mae contract y gwaith sifil a'r gwaith trydanol wedi cael eu dyfarnu i gwmnïau o'r DU (y ddau wedi'u lleoli ym Melfast). Cafodd y contract gwaith galluogi ei ddyfarnu i Dawnus Construction Ltd, o Glydach.

5.15 Croesawodd aelodau'r Grŵp yr adborth manwl ar sut y mae innogy yn ymdrechu i gydymffurfio ag Adran 106. Dywedodd un aelod y byddai'n anodd cael yr holl arbenigeddau sydd eu hangen yn lleol, a bod ymarferiadau tendro mawr yn cael eu monitro'n ofalus.

5.16 Mewn ymateb i gwestiwn ar fonitro pa mor lleol yw'r gweithlu mewn gwirionedd, eglurodd TJ fod elfen adrodd yn ymrwymiad yn y contract (sydd wedi'i osod ar Dawnus ac eraill), sy'n cynnwys edrych ar god post cartref y gweithwyr, a defnyddio data tebyg ar gyfer y gwariant ar gyflenwadau. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n gwneud synnwyr i gyflenwi nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau'n lleol.

5.17 Roedd KG hefyd wedi cyflwyno llythyr i'w drafod a anfonwyd gan **breswlydd lleol sy'n byw yn Heol Bolgoed**.

5.18 Nododd y Cadeirydd fod yr ymholiadau a'r cwynion a oedd yn y llythyr gerbron y Grŵp wedi cael eu trafod yn fanwl ganddo mewn cyfarfod blaenorol.

5.19 Roedd y llythyr wedi'i gyfeirio at aelodau Cyngor Tref Pontarddulais, ond gofynnodd TJ am gael cyfle i ymateb i'r holl ymholiadau a honiadau a wnaethpwyd yn y llythyr gan y preswlydd, i ddibenion y cofnodion.

	<b>Ymholiad / cwyn</b>	<b>Ymateb Innogy</b>
1	Mae cerbydau gwaith adeiladu'n gyrru trwy'r dref, er eu bod wedi cael ei gwahardd rhag gwneud hynny	Mae ymrwymiad yng nghontract yr holl gontractwyr i gydymffurfio â'r Cynllun Rheoli Traffig (TMP) sydd wedi'i gytuno â'r awdurdod lleol. Mae'r porthor wrth fynedfa'r safle yn herio pob gyrrwr sydd wedi dod i mewn i'r safle o'r cyfeiriad anghywir. Bydd unrhyw un nad yw'n cydymffurfio'n cael ei herio gan Dawnus. I ddangos sut y cydymffurfir â hyn, eglurodd TJ nad oedd dau yrrwr a oedd wedi torri'r TMP bellach yn gweithio ar y cynllun. Y farn oedd bod pawb wedi ymdrin â'r mater yn y ffordd fwyaf trylwyr bosibl.
2	Nid yw'r preswlydd wedi gweld dim tystiolaeth o gyfleuster golchi olwynion wrth fynedfa'r safle (amod cynllunio 7).	Mae'r porthor yn golchi mwd a llwch yn gyson oddi ar yr holl gerbydau sy'n gadael y safle, er mwyn atal y cerbydau rhag baeddu'r briffordd. Gwneir hyn yn ofalus gyda golchwr pwysedd. Efallai bod y preswlydd wedi disgwyl gweld peiriant golchi olwynion, ac nad yw'n sylweddoli mai'r porthor sy'n golchi'r cerbydau gyda golchwr pwysedd.
3	Mae'r gwaith adeiladu'n cael effaith ar blanhigion ac anifeiliaid lleol.	Roedd effaith y cynllun wedi'i hasesu'n drylwyr yn y Datganiad o Effaith Amgylcheddol a gyflwynwyd yn ystod y broses gynllunio, ac yr oedd Dinas a Sir Abertawe wedi cytuno arno ac fe'i hystyriwyd yn ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru (yn ystod y broses ceisiadau tiroedd comin). Mae'r materion hyn wedi cael eu trafod yn fanwl ac maent wedi'u cofnodi.
4	Mae'r gwaith ar y safle'n cychwyn yn gynnar ac mae'n swnllyd.	Mae'r fferm wynt yn brosiect adeiladu ac mae'n anorfod y bydd yn achosi rhywfaint o sŵn ac aflonyddwch. Gwnaethpwyd ymdrechion i leihau'r effeithiau hyn i'r graddau posibl. Glynir yn gaeth wrth yr holl gyfyngiadau a osodwyd ar innogy (trwy amodau cynllunio). Bu TJ/JC yn cadw golwg ar y safle ar dri achlysur gwahanol (22/5, 11/7, 12/10) i sicrhau cydymffurfiad â'r cyfyngiadau a osodwyd. Gwelodd TJ nad oedd y gweithwyr yn dechrau gweithio tan 7.30 am, sef yr amser y cytunwyd arno, ac nad oedd gweithwyr a oedd yn cyrraedd eu gwaith yn clepian drysau eu ceir. Gwelwyd un gweithiwr yn eistedd yn ei gar gyda'r injan yn rhedeg am gyfnod cyn dechrau gweithio. Cafodd TJ air â'r gweithiwr hwnnw wedyn.
5	Mae lefelau sŵn a dirgryniad yn	Mae lefelau sŵn yn cael eu monitro a barnwyd eu bod yn dderbyniol yn ôl y safonau caeth a bennwyd. Rhaid cydnabod bod

	annerbyniol.	y sŵn yn newydd ac yn wahanol sy'n golygu bod pobl yn fwy tebygol o sylwi arno. Yn yr un modd, mae dirgryniadau hefyd yn cael eu monitro'n ofalus – gan Dawnus ac yn annibynnol – a hyd yma, nid ydynt wedi torri'r safonau caeth a bennwyd.
6	Lefelau llwch yn annerbyniol	Mae ffyrdd yn cael eu hysgubo a'u golchi cyn gynted ag y bydd angen gwneud hynny. Cafodd Dawnus eu canmol am eu hymdrechion i gadw ffyrdd yn lân, a chadarnhaodd AT fod yr adran priffyrdd yn fodlon â'r camau a gymerwyd ganddynt.
7	Nid oes neb sy'n lleol i'r cynllun ar y Grŵp Cyswllt	Cafodd aelodau'r Grŵp Cyswllt eu henwebu gan eu cyngor cymuned a / neu eu mudiad. Ers sefydlu'r Grŵp, mae Jane Harris wedi ei henwebu fel aelod dirprwyol Cyngor Tref Pontarddulais, ac mae'n bresennol yn aml yn absenoldeb Kevin Griffiths. Mae JH yn byw yn Heol Bolgoed.

5.20 Mae'r gwaith ar fynedfa'r safle'n tynnu at y terfyn ac nid yw'n debygol y bydd yn parhau ar ôl mis Tachwedd. Ar ôl hynny, bydd cerbydau gwaith yn parcio'n uwch i fyny'r ffordd yn nes at safle'r fferm wynt, a dylai hyn leihau sŵn a niwsans.

5.21 Mae'r preswlydd lleol wedi gohebu'n aml ag innogy, a chafodd yr holl ohebiaeth ei hateb. Mae'r preswlydd wedi datgan ei hanfodlonrwydd â'r ymateb a gafodd gan innogy. Awgrymodd aelod o'r Grŵp y dylai JC gwrdd wyneb yn wyneb â'r preswlydd. Dywedodd JC ei bod yn cynnig cyfarfod wyneb yn wyneb mewn ymatebion e-bost, ond ni chafodd y cynnig ei dderbyn hyd yma.

5.22 Mae JH yn teimlo'n ddigon cymwys a gwybodys i siarad â'r preswlydd yn dilyn y diweddariadau a geir gan innogy, ac mae wedi cynnig mynd gyda JC i ymweld â'r preswlydd.

5.23 Mae preswlydd arall yn cynnal trafodaeth ag innogy ynglŷn â chraciau yn eu heiddo. Mae innogy yn parhau i fonitro dirgryniadau a bydd yn gwneud penderfyniad ar y mater pan fydd y gwaith monitro wedi'i gwblhau. Hyd yma nid oes achos i gredu y gallai dirgryniadau o ganlyniad i'r gwaith wrth fynedfa'r safle fod wedi achosi'r craciau. Innogy yw perchennog yr eiddo sydd agosaf at y safle, a gall fonitro'r adeilad hwn yn ofalus.

## 7. Diweddariad gan Tim James a Jenny Cowley

6.1 A hyn o bryd mae wyneb yn cael ei roi ar y rhan o gyffordd Heol Glyn Dyfal a Five Ways.

6.2 Mae rhagor o waith ffensio a phlannu yn cael ei drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf wrth fynedfa'r safle. Mae'r draeniau wedi cael ei gosod.

8.3 Mae'r bwnd wedi cael ei dynnu.

8.4 Mae'r tyllau ar Colliery Road yn cael eu llenwi, ond dylai'r Grŵp nodi fod y ffordd hon hefyd yn cael ei defnyddio gan draffig adeiladu sy'n gweithio ar y cynllun lliniaru llifogydd.

8.5 Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau aflonyddwch traffig ac mae un preswlydd hyd yn oed wedi ffonio i ddiolch am y ffordd mae innogy a'r contractwr wedi delio â phryderon.

8.6 Cafodd y grid gwartheg ger Cwmdulais ei osod ar gais cominwyr; fodd bynnag mae un preswlydd lleol wedi cwestiynu hyn, oherwydd heb ffens, bydd defaid yn gallu cerdded heibio'r grid gwartheg. Mae'r cominwyr wedi cytuno i godi ffens o boptu'r grid gwartheg, ac mae angen eglurhad pellach a chael cytundeb yn lleol. Bydd y mater yn cael ei godi â'r WGCA.

8.7 Wrth gyfeirio at y cwynion a godwyd gan y preswlydd o Heol Bolgoed (a drafodwyd yn ystod eitem 5 o'r agenda), nodwyd fod innogy wedi curo ar bob drws ar Heol Bolgoed Road, roedd Dawnus wedi dosbarthu llythyrau, ac roedd manylion cyswllt JC/innogy hefyd wedi cael eu rhannu.

## 9 Unrhyw Fater Arall

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i Dawnus am eu presenoldeb a'u cyfraniad. Mae contract Dawnus yn tynnu at ei therfyn ac nid yw'n debygol y bydd angen i gynrychiolwyr Dawnus fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol.

**10 Y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6 pm nos Iau 30 Tachwedd yn Sefydliad Pontarddulais (os bydd ar gael).

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 pm.